Pa fanylion y mae angen i chi eu rhoi ar y poster newydd ar gyfraith iechyd a diogelwch?

Mae'r Poster Cyfraith Iechyd a Diogelwch yn cynnwys tair adran sydd angen eu cwblhau.

Y rhain yw:

Cynrychiolydd/Cynrychiolwyr Cyflogeion
Mae'r blwch hwn ar gyfer cynrychiolydd sydd wedi'i benodi/ethol gan y cyflogeion, naill ai o dan reoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgor Diogelwch 1977 (os oes gan y gweithle undeb llafur) neu Reoliadau Ymgynghori â Chyflogeion 1996, (os nad oes undeb yn cael ei gynrychioli). Os nad oes neb wedi'i benodi/ethol gan y cyflogeion a bod yn gyflogwr yn ymgynghori'n uniongyrchol â'r cyflogeion, yna cedwir y blwch hwn yn wag.

- **Consulting employees on health and safety: a guide to the law – taflen am ddim** [432kb]

Cynrychiolydd Rheolwyr
Mae'r blwch hwn ar gyfer y person a benodir gan y cyflogwr dros iechyd a diogelwch (h.y. swyddog iechyd a diogelwch). Mae rheoliad 7 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn nodi "Mae'n rhaid i bob cyflogwr benodi un person cymwys neu fwy i'w gynorthwyo i ymgymryd â'r camau y mae angen iddo eu cymryd i gydymffurfio â'r gofynion a osodwyd arno gan y rheoliadau." Yn y pen draw efallai mai'r cyflogwr ei hun fydd y person hwnnw, yn dibynnu ar faint a strwythur y busnes, ac os oes gan y cyflogwr yr hyfforddiant a'r profiad perthnasol.

yn ôl i'r brig

Awdurdod Gorfodi
Mae eich awdurdod gorfodi ar gyfer iechyd a diogelwch yn dibynnu ar y math o fusnes yr ydych yn ei gynnal. Wrth benderfynu pwy yw eich awdurdod gorfodi, mae angen i chi ystyried y math o weithle rydych yn gweithio ynddo.
Mae'r HSE yn gorfodi mewn safleoedd megis ffatrïoedd, safleoedd adeiladu, pyllau glo, ffermydd, caeau ffeiriau, chwareli, rheilffyrdd, safleoedd cemegol, gosodiadau ar y môr a gosodiadau niwclear, ysgolion ac ysbytai.

- **Map/rhestr o holl ranbarthau'r HSE**

Bydd yr **Awdurdod Lleol** yn gorfodi mewn safleoedd megis siopau, rhai ystordai, y rhan fwyaf o swyddfeydd, gwestai a safleoedd arlwyo, chwaraeon, hamdden, gwasanaethau defnyddwyr ac addoldai. Gellir dod o hyd i fanylion eich awdurdod lleol yn eich llyfr ffôn lleol neu gallwn roi'r rhif ffôn i chi os gallwch ddweud wrthym ym mha ardal cyngor y mae'ch safle.

Gwasanaeth Ymgynghorol Meddygol Dros Gyflogi (EMAS)
Lleolir adrannau EMAS mewn swyddfeydd HSE lleol, er nad oes un mewn rhai swyddfeydd ardal bach.